# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 1 Rhagfyr 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol

**1. Janice Gregory (Ogwr);** A welodd dablau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyhoeddwyd yn yr Observer ar 24 Hydref a ddangosodd fod llawer mwy o berygl i bobl farw o ganser y croen, o'r fron a'r prostrad o fewn blwyddyn yng Nghymru nag yn unrhyw un o'r wyth rhanbarth yn Lloegr: yn wir, mae'r cyfartaledd yng Nghymru ddwywaith cyfartaledd rhanbarthau Lloegr yn achos canser y croen a thraean yn fwy yn achos canser y fron a chanser y prostrad. (OAQ2375JS)

**2. Brian Hancock (Islwyn);** A yw hi'n fodlon â lefel bresennol y ddarpariaeth ar gyfer llawfeddygaeth ar yr arennau yng Nghymru. (OAQ2348JS)

**3. Christine Humphreys (Gogledd Cymru)** ; Pa gynlluniau sydd ganddi i ddatblygu polisïau staff-gyfeillgar er mwyn annog nyrsus i aros yn eu proffesiwn. (OAQ2319JS)

**4. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)** ; A yw hi wedi ystyried manteision darparu profion llygaid am ddim. (OAQ2337JS)

**5. David Davies (Mynwy)** ; A all hi ein sicrhau nad yw'r uned trawsblannu arennau yn Ysbyty Prifysgol Cymru mewn perygl o gau. (OAQ 2316JS)

**6. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff hi ystyried cyfeirio mater profion llygaid am ddim i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol iddynt ei drafod. (OAQ2341JS)

**7. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Pa fesurau y mae'n eu cymryd i sicrhau na fydd unrhyw gamau i ganoli gwasanaethau arhosiad byr yn effeithio'n ddrwg ar gleifion mewn ardaloedd gwledig (OAQ2365JS)

**8. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** O gofio cyhoeddiadau diweddar gan Ysgrifennydd Iechyd Prydain o ran y teimlad bod ymarferwyr meddygol yn tan-gyflawni, sut

caiff y cynlluniau hyn eu rhoi ar waith yng Nghymru. (OAQ2309JS)

**9. Elin Jones (Ceredigion)** ; A wnaiff ddatganiad ynghylch lefel gyfredol y ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer llawfeddygaeth y galon. (OAQ2345JS)

**10. Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddiwygio arferion gwaith meddygon teulu er mwyn i’r cyhoedd allu eu gweld yn gynt. (OAQ2332JS)

**11. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Os yw am ddatgelu nifer y bobl yn Awdurdod Iechyd Bro Taf oedd yn aros mwy na chwe mis am eu hapwyntiad cyntaf fel cleifion allanol:

A. ar 31 Mawrth 1997 ac
B. yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael. (OAQ2366JS)

**12. Ieuan Wyn Jones (Ynys Mon);** Beth yw ei hymateb i argymhelliad y Gymdeithas Glaucoma Rhyngwladol i ddarparu profion llygaid am ddim. (OAQ2339JS)

**13. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw'r diweddaraf ynghylch yr ymdrechion i ddefnyddio'r cyfleusterau yn Ysbyty Clydach. (OAQ2331JS)

**14. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A all yr Ysgrifennydd ddweud faint o gleifion yr effeithir arnynt gan MRSA yn yr NHS yng Nghymru, a oes ganddi unrhyw ffigurau ar gyfer effaith hyn ar restrau aros ac a all roi manylion yngln â'r camau a gymerwyd yn y maes hwn. (OAQ2373JS)

**15. Nick Bourne (Canol a Gorllewin Cymru)** ; Os bydd yn gwneud datganiad ar wasanaeth ambiwlans 24 awr ym Mhowys. (OAQ2306JS)

**16. Gareth Jones (Conwy);** Os bydd yn gwneud datganiad ar effaith ailfformiwleiddio cyffuriau ar bresgripsiynau. (OAQ2347JS)

**17. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa gamau pellach y gellid eu cymryd i annog ffyrdd iachach o fyw yng Nghymru. (OAQ2370JS)

**18. Jenny Randerson (Canol Caerdydd)** ; Pa gynlluniau sydd ganddi i fynd i'r afael â'r sefyllfa fod llai o obaith i ferched yng Nghymru sy'n dioddef o ganser y fron i fyw na'r rhai sy'n byw yn Ffrainc, Sweden a'r Swistir. (OAQ2320)

**19. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa gamau a gymerwyd ganddi i sicrhau y bydd y projectau niferus a sefydlwyd o dan Arian Strategaeth Cymru yn parhau. (OAQ2344JS)

**20. Richard Edwards (Preselau Sir Benfro);** Pa gynlluniau sydd ganddi i sefydlu systemau gwybodaeth a chyfathrebu mwy cost-effeithiol o fewn yr NHS yng Nghymru. (OAQ2364JS)

**21. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Beth yw cost adeiladu’r ffyrdd dynesu sy’n arwain at Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd ac a yw’r gwaith hwn yn cael ei gyllido gan y gyllideb iechyd. (OAQ2342)

**22. David Melding (Canol De Cymru);** Pa bwerau fydd gan Awdurdodau Iechyd yng Nghymru i wahardd Ymarferwyr Cyffredinol yr ystyrir eu bod yn ‘tan-gyflawni’ a pha feini prawf a ddefnyddir ar gyfer y rhai sy’n ‘methu’. (OAQ2362JS)

**23. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa gamau y mae’n bwriadu eu cymryd i wella gofal lliniarol ar gyfer Plant yng Nghymru. (OAQ2308JS)

**24. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnydd cyflym ym mhris cyffuriau generig. (OAQ2356JS)

**25. Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth);** A yw adran yr Ysgrifennydd yn meddu ar ffigurau nifer y llawdriniaethau neu oriau y mae ymgynghorwyr yr NHS wedi’u contractio i’w gwneud ac union nifer y llawdriniaethau a wneir ganddynt o ran:

A) Llawfeddygaeth Orthopedig

B) Llawfeddygaeth Ddewisol (OAQ2372JS)

**26. Jane Davidson (Pontypridd);** A yw hi mewn sefyllfa i gyhoeddi manylion y cynlluniau ar gyfer dyfodol Canolfan Ymadfer Talygarn. (OAQ2368JS)

**27. David Davies (Mynwy)** ; A wnaiff hi ymrwymo i ddod â wardiau aml-ryw mewn ysbytai i ben. (OAQ2317JS)

**28. Nick Bourne (Canol a Gorllewin Cymru)**; A fydd hi’n gwneud datganiad ar y diffyg yn y gyllideb iechyd yn y flwyddyn gyfredol a’r ffaith bod y gwrthbleidiau wedi atgyfeirio’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. (OAQ2307)

**29. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Faint o gleifion sy’n aros am lawdriniaethau ar y galon a’r arennau yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd a pha gynlluniau sydd ganddi i fynd i’r afael â’r broblem hon yn y tymor hir. (OAQ2343JS)

**30. Jocelyn Davies (De Ddwyrain);** Beth yw ei barn ynghylch nifer presennol yr oriau y mae Meddygon Ifainc yn gweithio. (OAQ2346JS)

Gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Hyfforddiant dros 16 oed

**1. Jenny Randerson (Canol Caerdyddl)** ; A yw wedi cael trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am Nawdd Cymdeithasol ynghylch penderfyniad yr Asiantaeth Fudd-daliadau i ddiffinio benthyciadau myfyrwyr fel 'incwm' wrth ystyried ceisiadau am gredyd treth teulu. (OAQ2323JS)

**2. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A all y Cynulliad roi unrhyw gymorth i Theatr Gwent yn dilyn penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i beidio ag ariannu'r theatr yn y flwyddyn ariannol nesaf. (OAQ2399JS)

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i leihau nifer y plant sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg wrth symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. (OAQ2382JS)

**4. Christine Humphreys (North Wales)**; A all e ddweud wrth y Cynulliad pa gamau a gymerir i sicrhau y bydd cymhwyster Safon Uwch sydd wedi'i lunio'n benodol ar gyfer oedolion sy'n astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn parhau i fod ar gael. (OAQ2324JS)

**5. Jenny Randerson (Canol Caerdydd)** ; A oes unrhyw gynlluniau uno ar y gweill yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru (OAQ2322JS)

**6. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i gynyddu nifer y cyrsiau ysgrifenyddol a TG sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. (OAQ2335JS)

**7. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i gynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg i ateb y cynnydd yn y galw am addysg Gymraeg. (OAQ2388JS)

**8. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** A oes ganddo gynlluniau i wneud datganiad ar hynt Canolfan y Mileniwm. (OAQ2404JS)

**9. Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Beth fydd rôl y Cynulliad o ran prynu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y Sector Addysg Bellach. (OAQ2394JS)

**10. Geraint Davies (Rhondda);** Pa gynlluniau sydd ar droed i ostwng nifer y myfyrwyr sy'n gadael addysg Gymraeg ar ôl 16 oed. (OAQ2384JS)

**11. John Griffiths (Casnewydd);** Beth yw ei strategaeth ar gyfer hyrwyddo addysg a hyfforddiant ymysg cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. (OAQ2398JS)

**12. Nick Bourne (Canol a Gorllewin Cymru)** ; A wnaiff ddatganiad ynghylch ariannu amgueddfeydd yng Nghymru. (OAQ2312JS)

**13. Ieuan Wyn Jones (Ynys Mon);** Pa gynlluniau sydd ganddo i hyrwyddo cyfleusterau ar gyfer dysgu Cymraeg yn y gweithle. (OAQ2406JS)

**14. Geraint Davies (Rhondda);** A wnaiff ddatganiad ynghylch cyfraniad Prifysgol Morgannwg at adfywio'r cymoedd. (OAQ2381JS)

**15. Mick Bates (Mynwy);** A all amcangyfrif y gost i'r CETW arfaethedig o ysgwyddo rôl ariannu Cyngor Ariannu Addysg Bellach Cymru, a rôl rheoli a chyflogi'r TECau. (OAQ2402JS)

**16. Elin Jones (Ceredigion);** I wneud datganiad ar gyfraniad y sector gwirfoddol at dwf a datblygiad yr Iaith Gymraeg

**17. William Graham (Dwyrain De Cymru);** Pa fesurau fydd mewn grym i ddiogelu'r arian arfaethedig i chweched dosbarth yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig a'u perthynas â'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn chweched dosbarth. (OAQ2396JS)

**18. Gareth Jones (Conwy);** I wneud datganiad ar strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i wella dilyniant yn addysg cyfrwng Cymraeg. (OAQ2376JS)

**19. Nick Bourne (Canol a Gorllewin Cymru)** ; Os bydd yn cyhoeddi cynigion i gynnal y gwasanaethau hyfforddiant galwedigaethol rhanbarthol a ddarperir gan y TECau. (OAQ2313JS)

**20. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Sut y gall fformwla ariannu unigol ar gyfer addysg ôl-16 ystyried y gwerth ychwanegol a gynigir eisoes gan ddosbarthiadau chwech mewn ysgolion. (OAQ2380JS)

**21. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed)** ; Pa gynlluniau sydd ganddo i sicrhau bod pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn gwaith theatr a dysgu amdano. (OAQ2311JS)

**22. Glyn Davies ( Canolbarth a Gorllewin Cymru) ;** A wnaiff ymweld â Chyngor Hyfforddi a Menter Canolbarth Cymru i drafod sut y gall ddatblygu ei rôl strategol wrth ddatblygu’r rhanbarth. ( OAQ2405JS )

**23. David Davies (Mynwy)** ; A wnaiff gyfarwyddo Cyngor Celfyddydau Cymru i ohirio’u cynlluniau i gau Theatr Gwent. (OAQ2326JS)

**24. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Pa sicrwydd y gall ef roi i’r Gymuned Fusnes na fydd cymryd rhan yn y broses ETAP ar lefel Consortia Cymunedol a lefel CETW fod yn dreth o ran amser nac arian ar eu busnes. (OAQ2403JS)

**25. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A yw’r weithrediaeth yn ffafrio cyfeirio cyllid chweched dosbarth trwy’r awdurdodau addysg lleol. (OAQ2379JS)

**26. Peter Black (Gorllewin De Cymru)** ; A yw wedi derbyn barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch y bwriad i sianelu arian chweched dosbarth drwy Gyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru (CETW). (OAQ2327JS) (R)

**27. Rhodri Glyn Thomas** ( **Caerfyrddin a Dwyrain Dinefwr** ) ; Pa gynlluniau sydd ganddo i gynyddu’r nifer o gymwysterau ôl 16 sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. ( OAQ2393JS )

**28. David Davies (Mynwy)** ; A oes ganddo’r pwerau anghenrheidiol i wyrdroi penderfyniadau a wneir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. (OAQ2325JS)

**29. Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr);** Pa gynlluniau sydd ganddo i ehangu’r dewis o astudiaethau i’r rhai dros 16 oed mewn ardaloedd gwledig. (OAQ2329JS)

**30. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** A wnaiff ohirio rhoi cynllun strategol Cyngor Celfyddydau Cymru ar waith, o gofio nad yw’r pwyllgor perthnasol wedi archwilio’r gyllideb ar gyfer y celfyddydau ac nad ydynt wedi trafod y cynllun hyd yma. (OAQ2378JS)